

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys (CDLlN) 2022-2037

# Y Gymraeg

## Papur Cefndir

## Gorffennaf 2024

Cafwyd ei baratoi mewn partneriaeth gyda IAITH –
y Ganolfan Cynllunio Iaith

y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Powys

## Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Cyd-destun Polisi Cenedlaethol a Rhanbarthol

3 Cyd-destun Polisi Lleol

4 Y Gymraeg a'i Diwylliant ym Mhowys

5 CDLl Newydd Powys – Y Strategaeth a Ffefrir

6 Argymhellion

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Papur Cefndir hwn am y Gymraeg yn un o ystod o bapurau cefndir sy'n rhan o sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN). Mae'r papur hwn yn trafod yn benodol dueddiadau, statws ac anghenion y Gymraeg ym Mhowys ac yn rhoi cyd-destun ar gyfer y CDLlN. Mae Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n asesu effeithiau disgwyliedig y Cynllun ar y Gymraeg ym Mhowys wedi'i gwblhau. Bydd Asesiad o Effaith y CDLlN Adnau ar y Gymraeg ar wahân yn cael ei baratoi hefyd.

1.2 Mae'r Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio bwysig wrth greu polisïau defnydd tir ac yn y broses o wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio. Ond bydd llesiant yr iaith yng Nghymru yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag addysg, demograffeg, newidiadau cymunedol a chapasiti cymunedol, mynediad at dai, a sylfaen economaidd gadarn. Mae'r rhain yn ffactorau y gallai'r system gynllunio ddylanwadu arnynt i ryw raddau, ond nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn ei rheolaeth. Nid oes unrhyw fwriad i ymdrin yn fanwl â'r holl ffactorau sy'n dylanwadu ar iaith yn y papur hwn, ond mae modd ymdrin â rhai o'r elfennau hyn a thynnu ar y data sydd ar gael i gael gwell dealltwriaeth o sefyllfa bresennol y Gymraeg ym Mhowys a'r heriau y mae'n eu hwynebu.

1.3 Nodau'r ddogfen yw:

- gosod cyd-destun y polisi cynllunio ar gyfer yr ystyriaeth a roddir ar hyn o bryd i'r Gymraeg a chynllunio;
- gosod cyd-destun cenedlaethol a lleol o ran sut y defnyddir y Gymraeg yng Nghymru a Phowys;
- nodi ac ystyried y problemau a'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ym Mhowys.

# 2 Cyd-destun Polisi Cenedlaethol a Rhanbarthol

## Cyflwyniad

2.1 Mae'n rhaid i'r holl bolisïau a chynigion sydd wedi'u cynnwys o fewn CDLlN Powys sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'i Diwylliant fod yn gyson ac wedi'u hintegreiddio â deddfwriaeth, rheoliadau, cynlluniau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae adran hon y papur cefndir yn rhoi trosolwg o'r cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol ac yn amlygu rhai o'r ffyrdd allweddol y mae CDLlN Powys yn cefnogi'r nod o sicrhau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a chreu Cymru yr ydym am fyw ynddi. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r Gymraeg yw'r nod i sicrhau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden' (A.4).[1] Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) i weithio mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni'r nodau llesiant y mae'n eu cyflwyno.

2.3 Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Powys, fel cynrychiolydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, baratoi Cynllun Llesiant. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol roi sylw i'r cynlluniau llesiant lleol perthnasol a'r datganiadau ardal sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer yr ardal (paragraff 1.27 Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12)[2].

## Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

2.4 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Arfarniadau Cynaliadwyedd Cynlluniau Datblygu Lleol gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal yr Awdurdod (A.11(3)).

## Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

2.5 Mae adran 61 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ACLl adolygu'n barhaus y materion y gellid disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad eu hardal, gan gynnwys prif nodweddion ffisegol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr awdurdod ac i ba raddau y defnyddir y Gymraeg yn yr ardal.

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)
[2] Polisi cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU

## Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011)

2.6 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn deddfu i sicrhau bod gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol[3]. Sefydlodd hefyd Safonau'r Gymraeg, sy'n cynnwys gofyniad i bolisïau newydd neu adolygiadau o bolisïau ystyried yn ofalus sut y gallai ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio ag arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.7 Yn fwyaf diweddar, mae *Safonau Llunio Polisi (Dogfennau Ymgynghori) – arweiniad i sefydliadau cyhoeddus* Comisiynydd y Gymraeg fel y'u cyflwynwyd gan gynghorwyr cyfreithiol y Comisiynydd mewn seminar ar-lein ar 21 Tachwedd 2023[4] yn nodi canllawiau ar sut i drin y Gymraeg wrth lunio polisïau:

- Rhaid i gyrff ddangos "ymdrech gydwybodol" a pheidio â mabwysiadu 'ymagwedd ticio blychau' at ystyried effeithiau posibl y penderfyniad polisi ar y Gymraeg.
- Bydd y trothwy ar gyfer "ymdrech gydwybodol" yn dibynnu ar yr amgylchiadau a bydd angen mwy o graffu:
  - mewn ardal o sensitifrwydd neu arwyddocâd i'r Gymraeg
  - wrth i nifer a/neu raddau'r effeithiau posibl ar y Gymraeg gynyddu
  - os oes polisi neu ganllawiau lleol (ee yn y cyd-destun cynllunio neu addysg) sy'n gofyn am asesiad o effeithiau posibl ar y Gymraeg.
- Bydd "ymdrech gydwybodol" yn fwy tebygol os ystyrir ystod eang o effeithiau cadarnhaol, negyddol a niwtral (uniongyrchol ac anuniongyrchol).
- Mae trin effeithiau ar y Gymraeg o dan un "pennawd" mewn asesiad effaith integredig yn annigonol. Dylai'r Gymraeg gael yr un statws ag effeithiau amgylcheddol a dylai'r effeithiau arni gael eu cyflwyno mewn dogfen unigol, sy'n sefyll ar ei phen ei hun.
- Dylai cyrff symud oddi wrth y dull gor-syml o ofyn "beth yw'r effaith "net" ar y Gymraeg"? Mae'r effeithiau ar y Gymraeg yn gymhleth ac yn aml-ddimensiwn fel y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd. O ganlyniad, mae angen ystyried yn awr yr effeithiau cadarnhaol a negyddol amrywiol ar y Gymraeg ar wahân. Nid yw cyfuno'r rhain i effaith syml net + neu - yn ddull priodol oherwydd mae gwneud hynny'n rhy syml.

---

[3] Llywodraeth Cymru (2011) 'Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/welsh, cyrchwyd 15.08.2022

[4] Mae recordiad o'r seminar ar Safonau Llunio Polisi (Dogfennau Ymgynghori) – arweiniad i sefydliadau cyhoeddus a chopïau o'r sleidiau Power Point ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yma: Dogfennau cyngor (comisiynydd y Gymraeg.cymru)

## Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg

2.8 Mae Cymraeg 2050 yn nodi strategaeth genedlaethol Gweinidogion Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg.[5] Mae adran 'Gweledigaeth' y strategaeth yn amlinellu ei hamcanion hirdymor:

> *'Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.'* (t.4)

2.9 Nodir tri nod strategol i helpu i gyflawni'r weledigaeth hon:

- *Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050*
- *Dyblu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, a'r rhai sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050* (t.11)
- *Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun* (t.4).

2.10 Mae creu amodau ffafriol yn cynnwys:

> *Dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg drwy greu amodau addas i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Bydd ymwybyddiaeth o egwyddorion perthnasol cynllunio ieithyddol yn ategu hyn.*
>
> *Gallai penderfyniadau a wneir ynghylch math, graddfa ac union leoliad datblygiadau oddi mewn i gymuned benodol ddylanwadu'n fawr ar ddefnydd o iaith, ac yn sgil hynny ar gynaliadwyedd a hyfywedd yr iaith. Mae hyn yn galw am gryfhau'r berthynas rhwng cynllunio ieithyddol a chynllunio defnydd tir.*
>
> *Mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylai ystyriaethau mewn perthynas â'r Gymraeg fwydo i mewn i'r broses o baratoi cynlluniau datblygu lleol, ac mae canllawiau ar gael i gynorthwyo awdurdodau cynllunio yn hyn o beth. O dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, mae gwaith cynllunio datblygu ar bob lefel, bellach, yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau o'r fath gynnwys asesiad o effeithiau tebygol eu polisïau ar y Gymraeg.'* (t.63)

## Bil Addysg Gymraeg arfaethedig Llywodraeth Cymru

2.11 Mae Bil Addysg Gymraeg arfaethedig Llywodraeth Cymru[6] yn bwriadu cyflwyno 'newidiadau trawsnewidiol i'r ffordd yr ydym yn meddwl am y Gymraeg a rôl addysg oddi fewn i hynny' (t.5). Mae'r prif gynigion yn y Bil yn cynnwys:

- 'adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn y gyfraith;
- dros amser, cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig;

---

[5] Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU
[6] Addysg Gymraeg: papur gwyn | LLYW.CYMRU

- gofyniad i Weinidogion Cymru greu Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg, a'i adolygu bob tymor Seneddol;
- diwygio sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion er mwyn cyrraedd targedau a osodwyd gan Weinidogion Cymru;
- gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol, gan gynnwys darpariaeth trochi hwyr.'

## Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

2.12 Yn 2021, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040, y cynllun datblygu ar gyfer Cymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi cyfres o 11 canlyniad i gyflawni ei nodau sy'n cynnwys creu:

> *Cymru lle mae pobl yn byw … mewn lleoedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Ein nod yw sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 – sef cynnydd o bron 80% o gymharu â'r lefelau presennol. Bydd yr iaith yn cael ei hystyried o fewn strategaeth ofodol pob cynllun datblygu. Os mai'r Gymraeg yw iaith bob dydd y gymuned, caiff gwaith datblygu ei reoli er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall yr iaith barhau'n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hynny. Mewn mannau eraill bydd gwaith datblygu yn rym cadarnhaol i annog creu seilwaith addysgol a chymdeithasol er mwyn i'r iaith allu datblygu fel rhan naturiol, ffyniannus o gymunedau'.* (t.54)[7]

2.13 Mae angen adlewyrchu'r uchelgeisiau hyn mewn cynlluniau a strategaethau datblygu eraill, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n ofynnol bod strategaeth ofodol y CDLlN a'r hierarchaeth aneddiadau yn helpu i gyflawni canlyniadau Cymru'r Dyfodol, gan gynnwys creu neu ddiogelu lleoedd lle gall y Gymraeg ffynnu ym Mhowys.

## Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12

2.14 Mae polisi cenedlaethol yn atgyfnerthu darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 drwy ailadrodd bod yn rhaid asesu effeithiau tebygol cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o arfarniad cynaliadwyedd y Cynllun. Mae canllawiau pellach mewn perthynas â 'Creu Lleoedd i'r Gymraeg Ffynnu' yn nodi:

> *3.26 'Dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau dosbarthiad a chyflwyniad eang i'r datblygiad sy'n ystyried gallu'r ardal neu'r gymuned i gynnwys datblygiad heb gael effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg.'* (t.30)
>
> *3.27 'Dylai cynlluniau datblygu gynnwys datganiad ar sut mae awdurdodau cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut mae unrhyw bolisïau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill.'* (t.30)[8]

---

[7] Diweddariad i Gymru'r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040 (llyw.cymru)
[8] Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12 (llyw.cymru)

## Nodyn Cyngor Technegol 20 'Cynllunio a'r Gymraeg' Hydref 2017

2.15 Mae Nodyn Cyngor Technegol 20[9] yn cynnwys dwy elfen: mae'r rhan gyntaf yn amlinellu canllawiau ar baratoi CDLl ac ystyried y Gymraeg yn y broses rheoli datblygu. Mae'r ail ran yn darparu canllawiau ymarferol i gynorthwyo wrth ystyried materion yn ymwneud â'r Gymraeg wrth baratoi CDLl. Rhoddir crynodeb isod o'r pwyntiau allweddol sy'n berthnasol i gynhyrchu CDLl:

- Mae gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) ystyried y berthynas rhwng strategaeth, polisïau a dyraniadau safleoedd y CDLl ag anghenion a chyfleoedd cymdeithasol a chymunedol, hynny trwy Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) (paragraff 2.1.2).
- Gellir defnyddio'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni, i ofyn barn y gymuned ar sut mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn cydymwneud â pholisïau a chynigion y CDLl (paragraff 2.2).
- Dylai'r AoG ystyried y defnydd o'r iaith o safbwynt ei pherthnasedd i ddefnydd tir a ddylai wneud asesiad o dystiolaeth o effeithiau strategaeth, polisïau a dyraniadau gofodol ar y Gymraeg a'r defnydd ohoni (2.3.1).
- Dylai'r AoG sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir gynnwys cofnod o ganlyniadau'r gwaith arfarnu sydd wedi'i gynnal hyd yma, gan gynnwys rhagweld a gwerthuso effeithiau opsiynau'r CDLl ar amcanion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol (2.5).
- Dylai'r ACLl sicrhau bod y strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau tir yn y CDLl a adneuir yn gyson â'r AoG, fydd wedi ystyried yr effeithiau tebygol ar ddefnyddio'r Gymraeg (2.6).
- Gall y CDLl ddiffinio ardaloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol lle gall y Gymraeg fod yn ystyriaeth (2.7).
- Dylid nodi mesurau lliniaru yn y CDLl a gellir defnyddio cyfraniadau datblygwyr trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol neu ymrwymiadau adran 106 i'r perwyl hwn (2.8 a 2.9).
- Wrth baratoi a chasglu tystiolaeth, dylai'r ACLl ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes megis y cynllun llesiant lleol, data'r cyfrifiad, data Arolwg Defnydd Iaith, strategaethau a mentrau lleol a gwybodaeth yn ymwneud â darpariaeth addysg, ffactorau economaidd a chyfleusterau cymunedol.
- Wrth asesu'r dystiolaeth a gasglwyd, mae dull yr ACLl yn debygol o gael ei ddylanwadu gan rai neu bob un o'r ffactorau canlynol:
    - A all y mwyafrif, neu nifer sylweddol o'r boblogaeth, siarad Cymraeg o fewn cymunedau yn ardal y cynllun?
    - A yw niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol yn cynyddu neu'n gostwng?
    - Patrymau mudo a phroffil oedran y rhai sy'n symud allan o'r ardal ac i mewn iddi. Pa bwysau y mae hyn yn ei roi ar wasanaethau a seilwaith?
- Gall materion polisi allweddol i'w hasesu gynnwys polisïau sy'n ymwneud â thai, tir ar gyfer cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a seilwaith addysg, rhwymedigaethau cynllunio ac arwyddion.

[9] Nodyn cyngor technegol (TAN) 20: cynllunio a'r Gymraeg | LLYW.CYMRU

- Mae'n bosibl y bydd angen mesurau i liniaru'r effeithiau andwyol ac efallai y bydd angen cymryd camau i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol a dylid nodi'r rhain yn ystod cam llunio'r cynllun a'u nodi yn y Cynllun Adnau a gellir cynnwys unrhyw faterion manwl yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2- Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)

2.16 Mae'r canllawiau hyn yn diffinio tai fforddiadwy at ddiben y TAN hwn ac yn rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar sut i bennu fforddiadwyedd.[10] Mae'r TAN yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnwys targed tai fforddiadwy yn y cynllun datblygu sy'n seiliedig ar yr angen am dai a nodwyd yn yr asesiad o'r farchnad dai leol. Rhaid iddo hefyd ddangos sut y cyflawnir y targed a'r trefniadau monitro. Mae'r TAN hwn yn rhoi arweiniad ar sicrhau a darparu tai fforddiadwy i bobl leol neu i ddiwallu angen lleol ac felly mae ganddo gysylltiad agos â darparu tai o fewn cymunedau Cymraeg eu hiaith.

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

2.17 Mae TAN 6 yn rhoi arweiniad ymarferol ar rôl y system gynllunio wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu cymunedau gwledig cynaliadwy.[11] Mae'n rhoi canllawiau ar sut y gall y system gynllunio gyfrannu at economïau gwledig cynaliadwy, tai a gwasanaethau gwledig ac amaethyddiaeth gynaliadwy.

2.18 Mae Rhan 3.1.2 yn nodi y dylai'r cynllun datblygu hwyluso arallgyfeirio yn yr economi wledig drwy gynnwys anghenion diwydiannau gwledig traddodiadol a mentrau newydd wrth gadw'r effeithiau ar y gymuned leol a'r amgylchedd i'r lefel isaf posibl (t.11). Mae'r TAN hwn yn berthnasol oherwydd ei fod yn cefnogi datblygu cynaliadwy mewn cymunedau gwledig yng Nghymru – ac yn achos Powys, mae cymunedau gwledig yn fwy tebygol o gynnwys niferoedd uwch o siaradwyr Cymraeg.

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23 - Datblygu Economaidd (2014)

2.19 Mae TAN 23 yn rhoi cyngor ar y polisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygu economaidd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.[12] Mae'r TAN yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ar ddatblygu amcanion cynllunio economaidd lefel uchel, asesu buddion economaidd datblygiadau newydd, datblygu economaidd a'r economi wledig, paratoi sylfaen dystiolaeth ar gyfer CDLl, creu gweledigaeth datblygu economaidd ar gyfer CDLl a phennu cyflenwad o dir ar gyfer cyflogaeth. Er nad yw'r TAN hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at y Gymraeg, mae angen nodi'n glir sut y gall datblygu economaidd fod yn fodd o warchod a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

---

[10] Nodyn cyngor technegol (TAN) 2: cynllunio a thai fforddiadwy | LLYW.CYMRU
[11] Nodyn cyngor technegol (TAN) 6: cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy | LLYW.CYMRU
[12] Nodyn cyngor technegol (TAN) 23: datblygu economaidd | LLYW.CYMRU

# 3 Cyd-destun Polisi Lleol

## Cyflwyniad

3.1 Fel cynllun defnydd tir gofodol, mae angen i Gynllun Datblygu Lleol newydd Powys fod yn gyson ac wedi'i integreiddio â chynlluniau a strategaethau eraill a baratowyd ar gyfer y Sir. Mae'r adran hon yn cyfeirio at y mwyaf arwyddocaol o'r rhain.

## Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Powys 2011-2026

3.2 Mae'r Gymraeg a'i Diwylliant yn ystyriaethau cynllunio pwysig ym Mhowys. Mae'r CDLl mabwysiedig yn adlewyrchu hyn yn ei amcanion allweddol ac yn gwneud hynny'n benodol ac yn eglur drwy Amcan 15 fel yr amlinellir isod:

> *Amcan 15 - Y Gymraeg a Diwylliant Cymreig: Cefnogi a diogelu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ym Mhowys ac yn benodol, Cadarnleoedd y Gymraeg yn y gogledd-orllewin a'r de-orllewin.*

3.3 Roedd y CDLl mabwysiedig yn dilyn Polisi DM12 mewn perthynas â datblygu yng Nghadarnleoedd y Gymraeg:

> *Polisi DM12 - Datblygiadau yng Nghadarnleoedd y Gymraeg*
> *Bydd cynigion datblygu am ddeg neu fwy o dai ar hap-safleoedd o fewn neu yn ffurfio estyniadau rhesymol i'r anheddau canlynol yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Pan fydd yr Asesiad o'r Effaith yn dangos y gallai'r datblygiad gael effaith niweidiol, mae'n rhaid i gynigion gynnwys Cynllun Gweithredu Iaith yn nodi pa fesurau y bwriedir eu cymryd i warchod, hyrwyddo a gwella'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru:*

| | |
|---|---|
| *Trefi* | *Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Machynlleth ac Ystradgynlais* |
| *Pentrefi Mawr* | *Abercraf, Carno, Coelbren, Llanbrynmair, Llangynog, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin, Pontrobert, Penybontfawr a Threfeglwys* |

> *Bydd gweithredu unrhyw fesurau a ddynodwyd o fewn y Cynllun Gweithredu Iaith yn cael ei sicrhau un ai trwy amodau cynllunio, neu, pan yn angenrheidiol, trwy rwymedigaethau cynllunio.*

3.4 Mae Polisi DM12 yn cyfyngu'r gofyniad am Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i ddatblygiadau ar hap mewn grŵp penodol o aneddiadau sydd wedi'u henwi yn yr hierarchaeth aneddiadau a nodwyd. Nid yw'n rhoi ystyriaeth i ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar dwf nac ychwaith i ardaloedd ehangach yr aneddiadau a restrir.

## Cynllun Llesiant Powys: Powys Deg, Gynaliadwy ac Iach

3.5 Mae Cynllun Llesiant Powys yn cyflwyno tri amcan llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys a'r ffyrdd y maent yn cefnogi 'Nodau Llesiant' Deddf Cenedlaethau'r

Dyfodol gan gynnwys y nod i gyflawni 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.[13] Y tri amcan llesiant yw:

- mae pobl ym Mhowys yn byw bywydau hapus, iach a diogel;
- mae Powys yn sir o leoedd a chymunedau cynaliadwy; a
- gwasanaeth cyhoeddus cynyddol effeithiol i bobl Powys. (t.7)[14]

3.6 O fewn y cynllun, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn datgan yn benodol ei fwriad i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg:

*'Trwy ymgysylltu ag ystod o gymunedau fel y rhai sy'n siarad Cymraeg, byddwn yn ceisio deall beth sy'n bwysig iddyn nhw o ran bod yn iach a hapus a defnyddio hyn i lywio gwaith y BGC yn y dyfodol.'* (t.13)

*'Trwy gydol yr holl waith a wneir, byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn deg ac yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo hyn. Byddwn yn ceisio mynd ati i gyrraedd grwpiau Cymraeg eu hiaith i ddeall yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw'* (t.15)

## Gweledigaeth ar gyfer Datblygu Dysgwyr Cwbl Ddwyieithog ym Mhowys (Rhagfyr 2020)

3.7 Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd yr awdurdod lleol y ddogfen 'Gweledigaeth ar gyfer Datblygu Dysgwyr Cwbl Ddwyieithog ym Mhowys'. Mae'r ddogfen hon yn sail i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Powys (CSCA) 2022-2032. Y CSCA yw cynllun statudol yr ALl ar gyfer sicrhau darpariaeth wedi'i chynllunio'n dda ar gyfer gwella'r cyfleoedd i nifer cynyddol o blant a phobl ifanc ym Mhowys ddod yn gwbl ddwyieithog.

3.8 Mae'r 'Weledigaeth ar gyfer Datblygu Dysgwyr Cwbl Ddwyieithog ym Mhowys' yn nodi'r pum mater canlynol o bwysigrwydd strategol:

1. *Mae angen i Bowys normaleiddio addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.* (t.9)
2. *Mae angen i Gyngor Sir Powys a'i bartner ym Mudiad Meithrin gydweithio i sicrhau bod darpariaeth feithrin a blynyddoedd cynnar Gymraeg ar gael i bob plentyn.* (t.10)
3. *Mae angen i Bowys groesawu newydd-ddyfodiaid i'r ardal, gyda llawer yn newydd i Gymru. Dylem hefyd groesawu'r rhai sydd am ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl dewis addysg cyfrwng Saesneg yn wreiddiol i'w plentyn. Gallwn wneud hyn trwy gynnig cyfleoedd trochi (dysgu iaith yn gyflym) a chyfle i ymuno ac integreiddio'n llwyr i ddosbarth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.* (t.10)
4. *Mae angen i Bowys gael rhwydwaith o ddarparwyr cynradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ym mhob ardal yn y sir.* (t.11)
5. *Mae angen i Bowys ddatblygu rhwydwaith o ddarparwyr uwchradd sy'n cefnogi ei gilydd sy'n medru cynnig cwricwlwm llawn ar draws Powys yn Gymraeg ym*

[13] Cynllun Llesiant Powys - Cyngor Sir Powys
[14] Cynllun Llesiant Powys - Cyngor Sir Powys

*mhob cyfnod allweddol.* (t.11)[15]

3.9 Roedd y ddogfen weledigaeth hon yn dilyn 'Strategaeth Trawsnewid Addysg' Ebrill 2020. Mae gan y strategaeth hon bedwar nod strategol i gyd, ac yn eu plith mae'r ymrwymiad a ganlyn i ddyfodol addysg Gymraeg i ddysgwyr ym Mhowys: 'Nod Strategol 3: Byddwn yn gwella mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol.'

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032

3.10 Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg CSP 2022 – 2032 wedi'i wneud o dan Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 (CSCA, t.1).[16]

3.11 Mae'r cynllun yn cydnabod mai'r system addysg yw'r sbardun allweddol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys a chyfraniad y Cyngor tuag at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a nodir yn y strategaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg.

3.12 Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyflwyno gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn 'gwella mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol' (t.2). Yn unol â'r Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys, mae'n gwneud ymrwymiadau allweddol i 'ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ledled y sir am y deng mlynedd nesaf' (CSCA, t.3) ac yn nodi cynlluniau ar gyfer cynyddu darpariaeth cyn-ysgol ac addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob un o 13 ardal y Sir.

3.13 Mae'r CSCA (WESP) yn nodi:

> *'Tra bod y CSCA yn canolbwyntio'n glir ar y sector addysg, mae cyfle hefyd i sicrhau bod datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn ganolog i holl bolisïau a strategaethau'r Cyngor ar draws pob maes gwasanaeth, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol Powys, Strategaeth y Gymraeg, a chynlluniau adfywio economaidd megis Bargen Twf Canolbarth Cymru.'* (t.3)

3.14 O fewn y CSCA, mae'r awdurdod lleol yn ymrwymo i wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws holl gyfnodau allweddol addysg. Mae hefyd yn ymrwymo i gynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ym Mhowys ddod yn gwbl ddwyieithog. Mae'r cynllun yn nodi'n benodol nod Powys i gynyddu canran y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Sir o 22.2% yn 2019/20 i 36% erbyn 2030/31. Y bwriad yw y bydd ymrwymiadau'r CSCA yn cael canlyniadau a fydd, yn eu tro, yn

[15] Atodiad B - Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.pdf (moderngov.co.uk)
[16] Strategaethau'r Gymraeg Cyngor Sir Powys - Cyngor Sir Powys

cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3.15 Mae'r CSCA wedi'i drefnu o amgylch saith canlyniad:

- Canlyniad 1: Mwy o blant meithrin/tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Canlyniad 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Canlyniad 3: Mae mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall.
- Canlyniad 4: Mae mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Canlyniad 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
- Canlyniad 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Canlyniad 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor Sir Powys 2024-2028

3.16 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd hybu'r Gymraeg ar ACLl i gynhyrchu a chyhoeddi 'strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymhlith materion eraill):

a) *targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a*

b) *datganiad yn esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).' (Safon 145)*[17]

3.17 Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg CSP 2024 – 2028 yn nodi mai ei "huchelgais yw i'r Gymraeg fod yn ganolog i bopeth a wnawn a ffynnu yn ein cymunedau" (t.3). Mae'n cydnabod bod canran siaradwyr y sir wedi disgyn rhwng cyfrifiad 2011 a 2021 (o 19% i 16%) ac mae'n nodi bod atal y dirywiad hwn yn flaenoriaeth. Mae'n ceisio gwneud hynny drwy'r tri amcan a ganlyn (t.3):

1. *Cynyddu nifer y plant a phobl ifanc ym Mhowys sy'n siarad Cymraeg yn hyderus*
2. *Cynyddu nifer ein staff sy'n dysgu Cymraeg ac sy'n hyderus i ddefnyddio'r iaith yn rheolaidd yn eu gwaith.*
3. *Annog siopau a busnesau Powys i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid.*

[17] Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (legislation.gov.uk)

3.18 Mae’r Cynllun yn cyd-fynd â Chynllun Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg CSP ar gyfer 2022-2032 ac mae’n cynnwys rhai o’i amcanion. Mae'n nodi'n benodol y canlynol (t.3):

*Cynyddu nifer y plant sy’n derbyn addysg Gymraeg yw un o’r ffyrdd mwyaf effeithiol o greu mwy o siaradwyr Cymraeg yn ôl Llywodraeth Cymru. Mae’r strategaeth hon felly yn unol â’n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ar gyfer 2022 i 2032.*

3.19 Mae tair cydran i weledigaeth Strategaeth Hybu’r Gymraeg ar gyfer cyfeiriad strategol yr Awdurdodau Cynllunio Lleol:

1. *'Byddwn yn creu amodau lle bydd siaradwyr Cymraeg o bob gallu a chefndir yn defnyddio'r iaith fel mater o drefn ym mhob rhan o'r sir.*

2. *Byddwn yn ymfalchïo yn y Gymraeg fel Cyngor ac yn ymgorffori’r iaith yn ein gwaith beunyddiol pan fyddwn yn cynnig gwasanaethau i’r cyhoedd, yn llunio polisïau ac yn ein gweithrediadau mewnol.*

3. *Byddwn yn gwrthdroi’r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys ac yn cynnal nifer presennol y siaradwyr yn ystod cyfnod y strategaeth hon. Byddwn yn cynyddu nifer y siaradwyr erbyn diwedd y strategaeth nesaf i 20% erbyn 2032' (t.5).*

# 4 Y Gymraeg a'i Diwylliant ym Mhowys

## Cyflwyniad

4.1 Mae Cyngor Sir Powys yn ystyried y Gymraeg a'i diwylliant cysylltiedig yn bwysig ac yn rhan annatod o fywyd cymunedol Powys. Mae'r Awdurdod yn cefnogi ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg trwy'r gwasanaethau y mae yn eu darparu a llawer o weithgareddau eraill ac mae'n gweithredu polisi dwyieithog ar gyfer rheoli o ddydd i ddydd. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am gyd-destun lleol y Gymraeg a'i Diwylliant yn y sir. Darperir data sylfaenol i amlinellu dosbarthiad siaradwyr Cymraeg a thueddiadau o ran y defnydd o'r Gymraeg ym Mhowys gan ddefnyddio'r data sydd ar gael ar adeg ysgrifennu hwn.

4.2 Mae'r ystadegau a'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i ystyried proffil y Gymraeg ym Mhowys yn cynnwys data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (data Cyfrifiad 2011 a 2021), Llywodraeth Cymru, a Chyngor Sir Powys. Dadansoddwyd y data yn rhannol gan IAITH Cyf. Ceisiwyd peth data trwy Fanc Gwybodaeth ar Lesiant Powys (sy'n cynnwys data'r SYG (ONS) wedi'i drin).

## Y Diwylliant Cymreig

4.3 Mae gan Bowys nifer o ddynodiadau tir a chyfleusterau pwysig ar draws y sir sy'n ceisio gwarchod a gwella'r diwylliant Cymreig. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Warchodfa Biosffer Bro Ddyfi, Maes Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ac amrywiaeth o neuaddau cymuned, tref a phentref, theatrau a lleoliadau crefyddol a diwylliannol.

4.4 Dynodwyd Gwarchodfa Biosffer Dyffryn Dyfi UNESCO yn 2009, ar ôl derbyn cydnabyddiaeth ffurfiol gan UNESCO. Ei diben yw hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn seiliedig ar ymdrechion cymunedol lleol a gwyddoniaeth gadarn. Mae biosffer Dyfi yn gorchuddio arwynebedd o 840 cilometr sgwâr. Mae rhywfaint o'r ardal hon y tu allan i Bowys ac wedi'i lleoli yn awdurdodau cyfagos Ceredigion, Parc Cenedlaethol Eryri a Gwynedd. Mae'r ardaloedd ym Mhowys yn cynnwys rhannau helaeth o gymdogaeth Machynlleth.[18] Amcanion allweddol Gwarchodfa Biosffer Dyfi sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'i Diwylliant yw:

- *Cadw a gwella'r ardal fel lle gwych i fyw, gweithio a magu plant – ac i greu mwy o gyfleoedd iddynt fedru aros yma; a*
- *Gosod mwy o werth ar ein hamgylchedd naturiol ac ar ddiwylliant yr iaith Gymraeg.*[19]

4.5 Mae Maes Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn gyfleuster pwysig sy'n cynnal nifer o ddigwyddiadau diwylliannol yn flynyddol. Wedi'i leoli yn Llanfair ym Muallt, mae maes y sioe yn cynnal dros 400 o ddigwyddiadau bob blwyddyn, a'r pwysicaf yw Sioe

[18] Biosffer Dyfi UNESCO, Canolbarth Cymru
[19] Ibid.

Amaethyddol Frenhinol Cymru sydd wedi denu dros 200,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ers 1989.

4.6 Mae Neuaddau Cymunedol, Tref a Phentref, Theatrau a lleoliadau crefyddol a diwylliannol hefyd yn rhoi cyfle i gefnogi a diogelu Diwylliant Cymreig. Mae’r lleoliadau hyn yn cynnal clybiau, cymdeithasau, a sesiynau addoli sy’n hybu gweithgareddau diwylliannol Cymreig a’r Gymraeg.

4.7 Mae’r Mentrau Iaith yn gynlluniau sy’n ymwneud â’r Gymraeg sy’n gweithio i hybu a chefnogi’r defnydd o’r Gymraeg yn y gymuned o fewn eu hardaloedd. Mae gan Bowys ddwy fenter iaith Gymraeg - mae Menter Iaith Maldwyn yn gweithredu yng ngogledd y sir ac mae Menter Brycheiniog a Maesyfed yn gweithredu yn y de. Mae'r mentrau yn rhoi cyngor, yn cefnogi unigolion, sefydliadau a busnesau'r ardal, yn ogystal â threfnu gweithgareddau i godi proffil y Gymraeg.

4.8 Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol sy'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ledled Cymru gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym Mhowys, mae gan yr Urdd swyddogion rhanbarthol wedi’u rhannu yn ddau dîm - timau ‘Maldwyn’ a ‘Brycheiniog a Maesyfed’. Mae’r mudiad yn cynnal eisteddfod genedlaethol flynyddol, ac yn haf 2024, fe’i cynhaliwyd ym Meifod, Powys.

4.9 Fel y prif fudiadau sy’n darparu cyfleoedd allgyrsiol a chymunedol sy’n cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc, mae’r Urdd, Menter Maldwyn, a Menter Brycheiniog a Maesyfed yn bartneriaid allweddol gyda Chyngor Sir Powys sy’n gweithredu i gynyddu cyfleoedd y grŵp oedran hwn i ehangu eu defnydd o'r Gymraeg.

4.10 Mae Mudiad Meithrin yn bartner allweddol arall ar gyfer cyflwyno Strategaeth Hybu’r Gymraeg a’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae Mudiad Meithrin yn darparu profiadau chwarae a dysgu cyfrwng Cymraeg i blant o’u geni hyd at oed ysgol. Darperir y profiadau hyn ar ffurf grwpiau cymorth ar gyfer gwahanol grwpiau oedran: ‘Cymraeg i Blant’ (grwpiau cymorth wythnosol i’r rheini sydd â babanod), ‘Cylchoedd Ti a Fi’ (Cylchoedd Babanod a Phlant Bach) a ‘Chylchoedd Meithrin' (Cylchoedd Chwarae cyfrwng Cymraeg). Ym Mhowys, darperir Cylchoedd Meithrin mewn 21 o leoliadau.[20] Yn 2022/2023, roedd 569 o blant yn mynychu’r Cylchoedd Meithrin hyn.[21] Dengys data ar gyfer yr un cyfnod fod 86.3% o blant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn mynd ymlaen i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.[22]

[20] Data am y Gymraeg fesul awdurdod lleol | LLYW.CYMRU
[21] Ibid.
[22] Ibid.

## Ystadegau’r Gymraeg – Cymru

4.11 Yn hanesyddol, mae'r Gymraeg wedi bod ar drai ers troad y ganrif. Mae’r pwyntiau canlynol yn rhoi crynodeb o ganlyniadau allweddol am y Gymraeg yng Nghymru o gyfrifiad 2021:

- Gostyngodd cyfran y siaradwyr Cymraeg o 19% yn 2011 i 17.8% yn 2021.[23]
- Nododd Cyfrifiad 2021 fod poblogaeth gyffredinol Cymru wedi cynyddu i 3,107,493 – twf o tua 44,000 o bobl ers Cyfrifiad 2011 pan oedd yn 3,063,456.[24] Er gwaethaf cynnydd yng nghyfanswm poblogaeth Cymru, gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg sy’n byw yng Nghymru o tua 562,000 (2011) i 538,300 (2021).[25]
- Canran y siaradwyr Cymraeg oedd yn byw yng Nghymru yn 2021 yw’r isaf a gofnodwyd erioed. Nid yw hyn yn wir am nifer y siaradwyr Cymraeg a oedd ar ei isaf, sef 503,500 yn 1981.[26]
- Ac eithrio'r grwpiau oedran 16-19 a 20-44, profodd pob grŵp oedran ostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. Roedd y gostyngiad yn fwyaf amlwg ymhlith y grwpiau oedran iau. Gwelodd y grŵp oedran 5-15 ostyngiad o 6 pwynt canran, tra gwelwyd gostyngiad o 5.2 pwynt canran yn y grŵp oedran 3-4.[27]

4.12 Gostyngodd cyfran y bobl 3 oed a throsodd a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng 2011 a 2021 (gweler Tabl 1).

Tabl 1. Canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yn 2011 a 2021

| Awdurdodau Lleol | % 2011 | % 2021 | Newid mewn % pwyntiau[28] | Safle [29] |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 57.2 | 55.8 | -1.5 | 2 |
| Blaenau Gwent | 7.8 | 6.2 | -1.6 | 22 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 9.7 | 9.2 | -0.5 | 19 |
| Caerffili | 11.2 | 10.5 | -0.7 | 14 |
| Caerdydd | 11.1 | 12.2 | 1.1 | 15 |
| Sir Gaerfyrddin | 43.9 | 39.9 | -4.1 | 4 |
| Ceredigion | 47.3 | 45.3 | -2.0 | 3 |
| Conwy | 27.4 | 25.9 | -1.5 | 5 |
| Sir Ddinbych | 24.6 | 22.5 | -2.1 | 6 |
| Sir y Fflint | 13.2 | 11.6 | -1.6 | 10 |
| Gwynedd | 65.4 | 64.4 | -1.0 | 1 |

[23] Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU
[24] Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Cymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU
[25] Ibid.
[26] Ibid.
[27] Ibid.
[28] Cyfrifwyd y newidiadau yma - yn unol ag arfer Llywodraeth Cymru - gyda chanrannau heb eu talfyrru ar gyfer pob awdurdod lleol, nid y ffigurau wedi'u talgrynnu a welir yng ngholofnau canol y tabl hwn.
[29] Mae ‘1’ yma yn cynrychioli’r awdurdod lleol oedd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng nghyfrifiad 2021.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | 8.9 | 8.9 | 0.0 | 21 |
| Sir Fynwy | 9.9 | 8.7 | -1.3 | 17 |
| Castell-nedd Port Talbot | 15.3 | 13.5 | -1.8 | 9 |
| Casnewydd | 9.3 | 7.5 | -1.8 | 20 |
| Sir Benfro | 19.2 | 17.2 | -2.1 | 7 |
| **Powys** | **18.6** | **16.4** | **-2.1** | **8** |
| Rhondda, Cynon, Taf | 12.3 | 12.4 | 0.1 | 12 |
| Abertawe | 11.4 | 11.2 | -0.2 | 13 |
| Bro Morgannwg | 10.8 | 11.5 | 0.7 | 16 |
| Torfaen | 9.8 | 8.2 | -1.6 | 18 |
| Wrecsam | 12.9 | 12.2 | -0.7 | 11 |
| *Cymru* | *19* | *17.8* | *-1.2* | -- |

*Ffynhonnell*: Data cyfrifiad 2021 a 2011

## Gallu i siarad Cymraeg ym Mhowys

4.13 Mae poblogaeth Powys wedi cynyddu 0.14% o 132,976 yn 2011 i 133,169 yn 2021. Twf bach yw hwn ond nid yw'n anarferol i Gymru ac mae hefyd yn dangos nad yw poblogaeth Powys yn gweld dirywiad yn y boblogaeth fel y mae rhai rhannau o'r wlad.[30]

4.14 Fel y dengys Tabl 1, er gwaethaf y twf bychan ym mhoblogaeth Powys, mae canran y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn y sir wedi gostwng 2.1 pwynt canran ers 2011, o 18.6% i 16.4%. Mae Powys yn parhau i fod wedi'i gosod fel yr awdurdod lleol yng Nghymru sydd â'r wythfed ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd. Serch hynny, gwelodd Powys, gydag un sir arall, y gostyngiad ail fwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ar ôl Sir Gaerfyrddin (-4 pwynt canran). Gwelodd Sir Ddinbych a Sir Benfro hefyd ostyngiad o 2.1 pwynt canran. Yr unig ardaloedd yng Nghymru a welodd gynnydd mewn siaradwyr Cymraeg oedd Caerdydd (+1.1 pwynt canran), Bro Morgannwg (+0.7) a Rhondda Cynon Taf (+0.1).

4.15 Ym Mhowys, mae ffigurau cyfrifiad 2021 yn dangos bod 21,358 o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn byw yn y sir (gweler Tabl 2). O ran niferoedd y siaradwyr, Powys yw'r awdurdod lleol sydd â'r nawfed nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn 2021, roedd ychydig dros 2,600 yn llai o drigolion Cymraeg eu hiaith ym Mhowys o gymharu â'r cyfrifiad blaenorol.

Tabl 2. Siaradwyr Cymraeg ym Mhowys (ar lefel awdurdod lleol)

| | Yn gallu siarad Cymraeg (dros dair oed) | |
|---|---|---|
| Blwyddyn Cyfrifiad | Nifer | Canran |
| 2011 | 23,990 | 18.6% |
| 2021 | 21,358 | 16.4% |
| Newid | -2,632 | -2.2 |

[30] Cyfrifiad - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

*Ffynhonnell*: Data cyfrifiad 2021 a 2011

4.16 Mae Tabl 3 yn dangos sut y bu gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal ym Mhowys ar wahân i Grughywel rhwng 2011 a 2021. Mae'r newid mewn pwyntiau canran ar ei fwyaf yn y ddwy ardal sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef Machynlleth ac Ystradgynlais.

Tabl 3. Canran y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys yn ôl ardal, gan gymharu data cyfrifiad 2011 a 2021

| Ardal[31] | Pob oed 3+ 2021 | Pob oed 3+ 2011 | Newid mewn pwyntiau canran |
|---|---|---|---|
| Machynlleth | 49% | 53% | -4 |
| Ystradgynlais | 31% | 39% | -8 |
| Llanfyllin | 29% | 31% | -2 |
| Llanfair Caereinion | 26% | 27 % | -1 |
| Llanidloes a Blaenhafren | 17% | 18% | -1 |
| Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd | 13% | 15% | -2 |
| Aberhonddu | 13% | 14% | -1 |
| Y Drenewydd, Ceri a'r Ystog | 11% | 13% | -2 |
| Y Trallwng a Threfaldwyn | 11% | 12% | -1 |
| Llandrindod a Rhaeadr Gwy | 10% | 12% | -2 |
| Crughywel | 10% | 10% | 0 |
| Y Gelli Gandryll a Thalgarth | 8% | 10% | -2 |
| Tref-y-clawdd a Llanandras | 7% | 8% | -1 |

*Ffynhonnell*: Addasiad o Dabl 5, Atodiad 2 Strategaeth Hybu'r Gymraeg Powys 2024-2028

4.17 Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod canran y siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n sylweddol ymhlith wardiau Powys (gweler Tabl 4). Glantwymyn oedd y ward lle roedd y ganran ar ei huchaf ar 54.5%. Mewn cyferbyniad, roedd y ganran ar ei hisaf yn Yr Ystog ar 4.6%.

Tabl 4. Siaradwyr Cymraeg ym Mhowys (yn ôl ward etholiadol)

| Ward etholiadol | Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|
| Glantwymyn | 54.5 |
| Machynlleth | 47.4 |
| Banwy, Llanfihangel a Llanwddyn | 44.0 |
| Llanfair Caereinion a Llanerfyl | 37.4 |
| Cwm-twrch | 37.2 |
| Ynyscedwyn | 34.9 |

31 Rhoddir yr enwau hŷn ar yr ardaloedd yma er mwyn sicrhau cymhariaeth glir rhwng 2021 a 2011.

| | |
|---|---|
| Llanbrynmair | 33.6 |
| Llanrhaeadr-ym-Mochnant a Llansilin | 32.2 |
| Llanfyllin | 31.5 |
| Aber-craf ac Ystradgynlais | 31.3 |
| Caersws | 25.0 |
| Maes-car a Llywel | 23.7 |
| Llangynyw a Meifod | 23.5 |
| Tawe Uchaf | 22.7 |
| Rhiwcynon | 20.2 |
| Llansanffraid | 17.5 |
| Llanwrtyd | 15.9 |
| Llanidloes | 15.7 |
| Aberriw a Chastell Caereinion | 14.4 |
| Ysgir gyda Honddu Isaf a Llan-ddew | 14.4 |
| Llandinam gyda Dolfor | 14.2 |
| Gorllewin y Drenewydd | 13.7 |
| Llanfair-ym-Muallt | 13.5 |
| Llanafan-fawr gyda Garth | 13.1 |
| Tal-y-bont ar Wysg | 13.0 |
| Y Trallwng Llanerchyddol | 12.7 |
| Dolforwyn | 12.7 |
| Rhaeadr Gwy | 12.6 |
| Gogledd y Drenewydd | 12.4 |
| Canol a De'r Drenewydd | 11.9 |
| Cegidfa | 11.8 |
| Y Trallwng Gungrog | 11.7 |
| Llan-gors gyda Bwlch | 11.6 |
| Dwyrain y Drenewydd | 11.5 |
| Bronllys a Felin-fach | 11.3 |
| Gorllewin Aberhonddu | 11.0 |
| Llandysilio | 11.0 |
| Dwyrain Aberhonddu | 10.8 |
| Gogledd Llandrindod | 10.8 |
| Llanllŷr gyda Nantmel | 10.7 |
| Llangatwg a Llangynidr | 10.5 |
| Ceri | 10.5 |
| Talgarth | 10.5 |
| Llandrinio | 10.2 |
| De Llandrindod | 10.1 |
| Llanelwedd | 10.0 |
| Y Trallwng Castell | 9.9 |
| Crucywel gyda Chwm-du a Thretŵr | 9.7 |
| Ffordun a Threfaldwyn | 9.4 |
| Dyffryn Ieithon | 9.1 |
| Diserth a Threcoed gyda Bontnewydd-ar-wy | 8.8 |
| Y Clas-ar-Wy | 8.7 |

| | |
|---|---|
| Trelystan a Thre-wern | 8.3 |
| Llanandras | 7.4 |
| Pencraig | 6.9 |
| Trefyclo gyda Bugeildy | 6.8 |
| Y Gelli | 6.3 |
| Gwernyfed | 5.6 |
| Llangynllo gyda Norton | 5.5 |
| Yr Ystog | 4.6 |

*Ffynhonnell*: Data Cyfrifiad 2021

4.18 O ran ethnigrwydd ym Mhowys, y rhai o 'Grwpiau ethnig cymysg neu luosog' sydd fwyaf tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg, gyda 18.9% o'r grŵp hwn yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 (Tabl 5.). Mae hyn yn wir yn y mwyafrif o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru.[32] Mae'r siaradwyr Cymraeg hynny sy'n nodi eu bod yn 'Wyn' yn dod yn ail ym Mhowys ar 16.6% gyda 'Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd' yn dod yn drydydd ar 5%.

Tabl 5. Siaradwyr Cymraeg Powys yn ôl grŵp ethnig

| Grŵp ethnig | Canran sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|
| Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig | 4.0% |
| Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 5.0% |
| Grŵp ethnig arall | 4.1% |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 18.9% |
| Gwyn | 16.6% |

*Ffynhonnell*: Y Gymraeg yn ôl nodweddion poblogaeth (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU


## Sgiliau Cymraeg ym Mhowys

4.19 Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae gan 25% o drigolion Powys ryw gyfuniad o sgiliau Cymraeg. O fewn y ffigur hwn, cynhwysir y sgiliau canlynol: 'Gallu siarad a darllen ond yn methu ag ysgrifennu Cymraeg', 'Gallu siarad ond yn methu darllen nac ysgrifennu Cymraeg', 'Gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg', 'Gallu deall Cymraeg llafar yn unig' a 'Cyfuniadau eraill o sgiliau yn y Gymraeg'. Yn ôl Cyfrifiad 2021, nid oes gan 75% o drigolion Powys unrhyw sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn gynnydd o 3 phwynt canran ar y 72% a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2011.

4.20 Machynlleth yw'r ardal sydd â'r ganran uchaf o bobl â rhyw gyfuniad o sgiliau Cymraeg 59% (Ffigur 1 a Ffigur 2). Dilynir hyn gan Ystradgynlais ar 48% a Llanfyllin ar 40%. Ardal Tref-y-clawdd a Llanandras sydd â'r ganran isaf, sef 11%.

[32] Y Gymraeg yn ôl nodweddion poblogaeth (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU (ffigur 4)

**Ffigur 1: Canran o drigolion Powys sydd â sgiliau Cymraeg (yn ôl ardal)[33]**





| Ardal | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Machynlleth | 59% | 3,591 |
| Ystradgynlais | 48% | 4,852 |
| Llanfyllin | 40% | 3,623 |
| Llanfair Caereinion | 37% | 2,216 |
| Llanidloes a Blaenhafren | 29% | 1,846 |
| Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd | 23% | 1,503 |
| Aberhonddu | 22% | 3,051 |
| Y Drenewydd, Ceri a'r Ystog | 19% | 3,119 |
| Y Trallwng a Threfaldwyn | 19% | 3,373 |
| Llandrindod a Rhaeadr Gwy | 17% | 2,133 |
| Crughywel | 17% | 1,158 |
| Y Gelli Gandryll a Thalgarth | 14% | 1,195 |
| Tref-y-clawdd a Llanandras | 11% | 1,068 |

*Ffynhonnell:* [Cronfa Wybodaeth Llesiant: Gweld gwybodaeth ynglŷn â'r Gymraeg - Cyngor Sir Powys]

4.21 Dengys Ffigur 2 mai'r sgil 'Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg' yw'r sgil uchaf ym mhob ardal ym Mhowys. Y sgil ail uchaf ym mhob ardal yw 'Gallu deall Cymraeg llafar yn unig' ac mae hyn yn dangos bod cryn allu i ddeall Cymraeg llafar ymhlith pobl nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

[33] Yma mae 'sgiliau Cymraeg' yn cynnwys y newidynnau canlynol: 'Gallu siarad a darllen ond yn methu ag ysgrifennu Cymraeg', 'Gallu siarad ond yn methu â darllen nac ysgrifennu Cymraeg', 'Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg', 'Gallu deall Cymraeg llafar yn unig' a 'Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg'.

**Ffigur 2: Canran trigolion Powys yn ôl ardal a math o sgiliau Cymraeg**




*Ffynhonnell*: Banc Gwybodaeth ar Lesiant: Gweld gwybodaeth am y Gymraeg - Cyngor Sir Powys (Data Cyfrifiad 2021)

## Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Y Flwyddyn yn Diweddu Mehefin 2023)

4.22 Mae'r data diweddaraf a ddarparwyd yn Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Llywodraeth Cymru (y flwyddyn yn diweddu 30 Mehefin 2023) yn nodi bod 37,200 o boblogaeth Powys sy'n 3 oed neu'n hŷn yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cyfateb i 29.0% o boblogaeth y sir. [34] Mae'r Arolwg yn nodi bod 29.7% o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigurau hyn yn llawer uwch na'r rhai a ddarparwyd gan Gyfrifiad 2021.

4.23 Yn ôl data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae 11.6% o boblogaeth Gymraeg Powys yn siarad Cymraeg yn ddyddiol, 5.9% yn siarad Cymraeg yn wythnosol a 9.6% pellach yn siarad Cymraeg yn llai aml.[35] Mae data'r arolwg ar gyfer Cymru gyfan yn dangos bod 14.9% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn siarad yr iaith yn ddyddiol, 5.3% yn wythnosol a 7.4% pellach yn llai aml.

[34] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Y gallu i siarad Cymraeg fesul awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)
[35] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Amlder siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)

4.24 Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o anghysondebau rhwng ei Harolwg Poblogaeth Flynyddol a'r Cyfrifiad, ac mae wrthi'n cynnal gwaith (ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon) i weld beth yw achos yr anghysondeb.[36]

## Oedran Preswylwyr Powys a Chymry Cymraeg

4.25 Powys sydd â'r oedran cyfartalog (canolrifol) uchaf yng Nghymru.[37] Rhwng cyfrifiadau 2011 a 2021, mae canran poblogaeth Powys dros 65 oed wedi cynyddu (gweler Tabl 6). Yn 2021, roedd 27.9% o'r boblogaeth dros 65 oed, cynnydd o'r 23.4% a gofnodwyd yn 2011. Mae'r un peth yn wir am y grŵp oedran 3-15, er i raddau llawer llai gyda chynnydd o 0.8% rhwng y ddau gyfrifiad.

4.26 Yn ôl data cyfrifiad 2021, y grŵp oedran 3-15 yw'r grŵp oedran â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg o hyd (27.7%) (gweler Tabl 7). Ond dyma hefyd y grŵp oedran a welodd y gostyngiad mwyaf (gostyngiad o 12.2 pwynt canran) o ran canran y siaradwyr Cymraeg o gymharu â 2011. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd gyda grwpiau oedran iau a welir ledled Cymru.[38]

Tabl 6. Poblogaeth Powys yn ôl Grŵp Oedran, 2011 a 2021

| Grŵp oedran | Canran y boblogaeth | | Cynnydd/gostyngiad |
|---|---|---|---|
| | 2011 | 2021 | |
| 3-15 | 14.7 | 15.5 | + 0.8 |
| 16-64 | 61.8 | 56.6 | - 5.2 |
| 65+ | 23.4 | 27.9 | + 4.5 |

*Ffynhonnell*: Data cyfrifiad 2021 a 2011

Tabl 7. Siaradwyr Cymraeg ym Mhowys yn ôl Grŵp Oedran, 2011 a 2021

| Grŵp oedran | Canran y siaradwyr Cymraeg | | Cynnydd/gostyngiad |
|---|---|---|---|
| | 2011 | 2021 | |
| 3-15 | 39.9 | 27.7 | -12.2 |
| 16-64 | 15.0 | 14.9 | - 0.1 |
| 65+ | 14.8 | 11.8 | - 3.0 |

*Ffynhonnell*: Data cyfrifiad 2021 a 2011

[36] Cynllun gwaith ar y cyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a Llywodraeth Cymru ar gydlyniad ystadegau ar y Gymraeg | LLYW.CYMRU
[37] Demograffeg a mudo yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU
[38] Diweddariad y Prif Ystadegydd: deall data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg | Blog Digidol a Data (llyw.cymru)

4.27 O fewn pob ardal ym Mhowys y grŵp oedran sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yw'r grŵp oedran 3-15 (gweler Tabl 8). Mae hyn yn adlewyrchu patrwm cyffredin ledled Cymru. Ac eithrio Crughywel, mae canran y siaradwyr ar ei isaf o fewn yr ardaloedd ymhlith naill ai'r grwpiau oedran 50-64 neu 65+. O'r holl grwpiau oedran, a phob ardal leol, mae canran y siaradwyr Cymraeg ar ei isaf ymhlith y grŵp oedran 65+ yn Nhref-y-clawdd a Llanandras.

Tabl 8. Siaradwyr Cymraeg yn ôl ardaloedd ac oedran

| Ardal | Pob oed 3 a throsodd | 3-15 oed | 16-24 | 25-34 | 35-49 | 50-64 | 65 + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Machynlleth | 49% | 72% | 64% | 56% | 47% | 22% | 42% |
| Ystradgynlais | 31% | 38% | 31% | 29% | 22% | 20% | 37% |
| Llanfyllin | 29% | 49% | 42% | 32% | 24% | 19% | 23% |
| Llanfair Caereinion | 26% | 52% | 41% | 28% | 21% | 11% | 17% |
| Llanidloes a Blaenhafren | 17% | 33% | 20% | 21% | 16% | 11% | 12% |
| Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd | 13% | 34% | 27% | 14% | 12% | 7% | 6% |
| Aberhonddu | 13% | 26% | 18% | 12% | 10% | 8% | 10% |
| Y Drenewydd, Ceri a'r Ystog | 11% | 24% | 16% | 10% | 9% | 9% | 7% |
| Y Trallwng a Threfaldwyn | 11% | 27% | 17% | 10% | 8% | 16% | 6% |
| Llandrindod a Rhaeadr Gwy | 10% | 26% | 22% | 11% | 9% | 5% | 4% |
| Crughywel | 10% | 29% | 18% | 6% | 8% | 6% | 6% |
| Y Gelli Gandryll a Thalgarth | 8% | 25% | 15% | 10% | 5% | 7% | 3% |
| Tref-y-clawdd a Llanandras | 7% | 23% | 16% | 7% | 5% | 5% | 2% |

*Ffynhonnell*: Data cyfrifiad 2021

4.28 Mae data ar lefel ward ar gyfer y grŵp oedran 3-15 (Tabl 9) yn atgyfnerthu ymhellach yr honiad bod sgiliau siarad Cymraeg gryfaf ymhlith y grŵp oedran hwn. Ym mhob ward ym Mhowys - heblaw Ynyscedwyn - mae canran y siaradwyr Cymraeg yn y grŵp 3-15 yn uwch na chanran poblogaeth y ward o siaradwyr Cymraeg yn ei chyfanrwydd. O ran niferoedd siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 3-15, mae'r nifer uchaf yn ward drefol 'Canol a De'r Drenewydd' (246). Dilynir hyn gan 'Llanfair Caereinion a Llanerfyl' (206) ac 'Aber-craf ac Ystradgynlais' (204).

Tabl 9. Siaradwyr Cymraeg ym Mhowys yn ôl ward (grŵp oedran 3-15 a'r boblogaeth gyffredinol 3+ oed ), data Cyfrifiad 2021

| Wardiau ac adrannau etholiadol | Nifer y plant 3-15 oed sy'n siarad Cymraeg | Canran y plant 3-15 oed sy'n siarad Cymraeg | Canran y boblogaeth gyffredinol 3+ oed sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Glantwymyn | 196 | 77.5 | 54.5 |
| Banwy, Llanfihangel a Llanwddyn | 196 | 75.1 | 44.0 |
| Llanfair Caereinion a Llanerfyl | 206 | 68.7 | 37.4 |
| Machynlleth | 191 | 67.5 | 47.4 |
| Llanbrynmair | 126 | 59.4 | 33.6 |
| Llanfyllin | 121 | 54.8 | 31.5 |
| Caersws | 146 | 50.7 | 25.0 |
| Cwm-twrch | 171 | 49.6 | 37.2 |
| Llanrhaeadr-ym-Mochnant a Llansilin | 137 | 45.4 | 32.2 |
| Rhiwcynon | 124 | 43.4 | 20.2 |
| Maes-car a Llywel | 97 | 41.6 | 23.7 |
| Llandinam gyda Dolfor | 86 | 40.4 | 14.2 |
| Llangynyw a Meifod | 96 | 40.2 | 23.5 |
| Llansanffraid | 110 | 40.0 | 17.5 |
| Aberriw a Chastell Caereinion | 94 | 37.8 | 14.4 |
| Bronllys a Felin-fach | 89 | 37.7 | 11.3 |
| Aber-craf ac Ystradgynlais | 204 | 37.4 | 31.3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llanfair-ym-Muallt | 122 | 37.4 | 13.5 |
| Llanwrtyd | 59 | 36.0 | 15.9 |
| Ynyscedwyn | 94 | 34.2 | 34.9 |
| Rhaeadr Gwy | 90 | 34.0 | 12.6 |
| Llangatwg a Llangynidr | 88 | 33.0 | 10.5 |
| Llanafan-fawr gyda Garth | 67 | 32.8 | 13.1 |
| Tal-y-bont ar Wysg | 74 | 32.7 | 13 |
| Y Trallwng Llanerchyddol | 80 | 32.1 | 12.7 |
| Tawe Uchaf | 76 | 31.5 | 22.7 |
| Dolforwyn | 77 | 31.0 | 12.7 |
| Llandysilio | 74 | 30.6 | 11.0 |
| Talgarth | 70 | 29.5 | 10.5 |
| De Llandrindod | 102 | 29.5 | 10.1 |
| Crucywel gyda Chwmdu a Thretŵr | 112 | 29.2 | 9.7 |
| Diserth a Threcoed gyda Bontnewydd-ar-wy | 61 | 29.0 | 8.8 |
| Llanllŷr gyda Nantmel | 68 | 28.2 | 10.7 |
| Llandrinio | 77 | 28.2 | 10.2 |
| Y Trallwng Castell | 90 | 27.6 | 9.9 |
| Llanidloes | 156 | 27.4 | 15.7 |
| Ysgir gyda Honddu Isaf a Llan-ddew | 56 | 27.2 | 14.4 |
| Llan-gors gyda Bwlch | 50 | 26.9 | 11.6 |
| Dyffryn Ieithon | 80 | 26.8 | 9.1 |
| Cegidfa | 49 | 26.3 | 11.8 |
| Llanandras | 60 | 26.1 | 7.4 |
| Pencraig | 51 | 26.0 | 6.9 |
| Llanelwedd | 63 | 25.9 | 10.0 |
| Ceri | 56 | 25.7 | 10.5 |
| Gogledd y Drenewydd | 60 | 25.6 | 12.4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dwyrain y Drenewydd | 82 | 24.8 | 11.5 |
| Y Clas-ar-Wy | 52 | 24.8 | 8.7 |
| Canol a De'r Drenewydd | 246 | 24.6 | 11.9 |
| Ffordun a Threfaldwyn | 72 | 23.9 | 9.4 |
| Gorllewin y Drenewydd | 59 | 23.4 | 13.7 |
| Y Trallwng Gungrog | 76 | 22.5 | 11.7 |
| Gorllewin Aberhonddu | 163 | 22.1 | 11.0 |
| Gogledd Llandrindod | 87 | 21.8 | 10.8 |
| Trefyclo gyda Bugeildy | 89 | 21.0 | 6.8 |
| Dwyrain Aberhonddu | 83 | 20.2 | 10.8 |
| Llangynllo gyda Norton | 30 | 20.0 | 5.5 |
| Trelystan a Thre-wern | 42 | 19.8 | 8.3 |
| Y Gelli | 35 | 18.5 | 6.3 |
| Gwernyfed | 32 | 17.7 | 5.6 |
| Yr Ystog | 18 | 8.9 | 4.6 |

*Ffynhonnell*: data cyfrifiad 2021

4.29 Yr amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer Powys yn 2018, 2019, 2020 a 2021 ar gyfer y mewnlif net o oedolion iau (rhwng 20 a 34 oed) oedd +46, +58, +58 a -74 yn y drefn honno.[39] Mae hyn yn golygu bod +88 o bobl o'r grŵp oedran hwn wedi symud i'r sir yn ystod y cyfnod hwn. Ar hyn o bryd, nid oes data ar gael i ddadansoddi'r lleoliad y mae oedolion iau yn symud ohono i Bowys (naill ai siroedd eraill yng Nghymru neu'r tu allan i Gymru) a'u sgiliau iaith.

## Data CYBLD (PLASC) (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion).

4.30 Mae data CYBLD yn dangos bod gan 42.1% o blant 5 i 11 oed ym Mhowys rywfaint o allu yn y Gymraeg, naill ai'n rhugl neu ddim yn rhugl (Tabl 10). Mae hyn yn ostyngiad bach o'r 44% a gofnodwyd yn 2021/2022 (Tabl 11).

[39] Cyngor Sir Powys 2022 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2023', t.179.

4.31 Ym Mhowys, mae gan 71.3% o blant 11 i 15 oed rywfaint o allu yn y Gymraeg (naill ai'n rhugl neu ddim yn rhugl). Mae hyn yn ostyngiad bach o'r 72.6% a gofnodwyd yn 2021/2022 (Tabl 10 a Thabl 11).

Tabl 10. 'Y Gallu i Siarad Cymraeg' a 'Siarad Cymraeg gartref', fel yr aseswyd gan rieni disgyblion ym Mhowys (CYBLD, 2022/2023)[40]

| Data CYBLD Powys 2022/2023 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau oedran** | **Rhugl yn y Gymraeg** | | **Ddim yn rhugl yn y Gymraeg** | | **Methu â siarad Cymraeg** | | **Cyfanswm** | **Gallu (Rhugl + Ddim yn Rhugl)** | |
| | **Cyfrif** | **Canran** | **Cyfrif** | **Canran** | **Cyfrif** | **Canran** | **Cyfrif** | **Cyfrif** | **Canran** |
| **5 i 11** | 430 | 5.9% | 2,625 | 36.1% | 4,210 | 57.9% | 7,265 | 3,055 | 42.1% |
| **11 i 15** | 360 | 6.9% | 3,385 | 64.4% | 1,510 | 28.7% | 5,255 | 3,745 | 71.3% |
| **Cyfansymiau** | **790** | **6.3%** | **6,010** | **48.0%** | **5,720** | **45.7%** | **12,520** | **6,800** | **54.3%** |

*Ffynhonnell*: Yr Iaith Gymraeg (llyw.cymru) a driniwyd gan IAITH.

Tabl 11. 'Y Gallu i Siarad Cymraeg' a 'Siarad Cymraeg gartref', fel yr aseswyd gan rieni disgyblion ym Mhowys (PLASC, 2021/2022)[41]

| Data CYBLD Powys 2021/2022 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau oedran** | **Rhugl yn y Gymraeg** | | **Ddim yn rhugl yn y Gymraeg** | | **Methu siarad Cymraeg** | | **Cyfanswm** | **Gallu (Rhugl + Ddim yn Rhugl)** | |
| | **Cyfrif** | **Canran** | **Cyfrif** | **Canran** | **Cyfrif** | **Canran** | **Cyfrif** | **Cyfrif** | **Canran** |
| **5 i 11** | 425 | 5.8% | 2,825 | 38.2% | 4,140 | 56.0% | 7,390 | 3,250 | 44.0% |
| **11 i 15** | 565 | 10.3% | 3,415 | 62.3% | 1,505 | 27.4% | 5,485 | 3,980 | 72.6% |
| **Cyfansymiau** | **990** | **7.7%** | **6,240** | **48.5%** | **5,645** | **43.8%** | **12,875** | **7,230** | **56.2%** |

*Ffynhonnell*: Yr Iaith Gymraeg (llyw.cymru) data a driniwyd gan IAITH.

4.32 Mae data CYBLD hefyd yn rhoi darlun o nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf ym Mhowys (Tabl 12). Mae'r nifer a'r ganran ar ei uchaf ar gyfer blwyddyn ysgol Derbyn. Ar gyfartaledd, o ystyried pob blwyddyn ysgol o'r Meithrin i Flwyddyn 13, mae 16.5% o ddisgyblion Powys yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf.

Tabl 12. Nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ym Mhowys, 2022/2023

| **Blwyddyn ysgol** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Meithrin | 75 | 14.9% |
| Derbyn | 290 | 23.9% |

[40] Mae pob categori (Rhugl yn y Gymraeg, Ddim yn rhugl yn y Gymraeg, Methu â siarad Cymraeg) yn cynnwys 'Amherthnasol / methu â siarad Cymraeg'

[41] Mae pob categori (Rhugl yn y Gymraeg, Ddim yn rhugl yn y Gymraeg, Methu siarad Cymraeg) yn cynnwys 'Amherthnasol / methu siarad Cymraeg'

| | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | 275 | 22.0% |
| Blwyddyn 2 | 270 | 21.2% |
| Blwyddyn 3 | 280 | 22.0% |
| Blwyddyn 4 | 280 | 21.1% |
| Blwyddyn 5 | 250 | 19.3% |
| Blwyddyn 6 | 240 | 18.1% |
| Blwyddyn 7 | 180 | 13.3% |
| Blwyddyn 8 | 125 | 10.1% |
| Blwyddyn 9 | 160 | 12.4% |
| Blwyddyn 10 | 150 | 11.0% |
| Blwyddyn 11 | 150 | 12.3% |
| Blwyddyn 12 | 65 | 13.0% |
| Blwyddyn 13 | 55 | 13.4% |

*Ffynhonnell*: Data ar y Gymraeg fesul awdurdod lleol | LLYW.CYMRU

4.33 Mae'r potensial i gynyddu nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys yn dibynnu i raddau helaeth ar weithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 – 2032 (CSCA) y sir. Mae'r adrannau canlynol yn tynnu ar ddata allweddol o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i osod y llinell sylfaen a'r targedau ar gyfer cynyddu nifer y plant a phobl ifanc sydd â sgiliau Cymraeg.

## Cynyddu nifer y plant cyn-ysgol sy'n siarad Cymraeg

4.34 Nod Powys yw cynyddu nifer y plant tair oed sy'n derbyn addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i 44% neu 704 o ddisgyblion erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2031/32 (Tabl 13). Mae targed nifer y disgyblion wedi'i amcangyfrif yn seiliedig ar nifer y plant 3 oed oedd ym Mhowys yn nhymor yr haf 2021, felly gallai'r ffigur terfynol amrywio.

Tabl 13. Amcangyfrif o nifer a chanran y plant tair oed a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhowys 2023 - 2032

| Blwyddyn | Niferoedd | Canran |
|---|---|---|
| 2023-2024 | 448 | 28% |
| 2024-2025 | 480 | 30% |
| 2025-2026 | 512 | 32% |
| 2026-2027 | 544 | 34% |
| 2027-2028 | 576 | 36% |
| 2028-2029 | 608 | 38% |
| 2029-2030 | 640 | 40% |
| 2030-2031 | 672 | 42% |

| | | |
|---|---|---|
| 2031-2032 | 704 | 44% |

*Ffynhonnell*: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Powys (CSCA) 2022-2032, t.17

4.35 Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Powys yn nodi'r bwriad i sicrhau mynediad i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o Bowys. Bydd hyn yn golygu gwella sgiliau addysgu cyfrwng Cymraeg staff sy'n gweithio mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Fe'i cyflawnir hefyd drwy gydweithio â Mudiad Meithrin i sefydlu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn yr ardaloedd lle nad oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bodoli:

- Y Gelli Gandryll
- Crughywel
- Llanandras
- Llanidloes
- Ardal y Gororau yng Ngogledd Powys (Ardd-lin, Four Crosses, Llandysilio, Carreghofa).

## Trosglwyddo'r Gymraeg

4.36 Fel sy'n wir am weddill Cymru, mae cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg ar ei huchaf ym Mhowys mewn cartrefi lle mae dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg, gan gynnwys o leiaf y ddau bartner. Mewn cartrefi o'r fath y gyfradd drosglwyddo yw 74% (Tabl 14).

Tabl 14. Cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg ar gyfer plant dibynnol (3-4 oed) ym Mhowys

| **Cyfansoddiad y cartref** | **Canran** |
|---|---|
| Cartref gyda chwpl | |
| Dim oedolion yn gallu siarad Cymraeg | 8% |
| Dim ond un partner (merch) sy'n gallu siarad Cymraeg (dim oedolyn arall sy'n siarad Cymraeg) | 38% |
| Dim ond un partner (gwryw) sy'n gallu siarad Cymraeg (dim oedolyn arall sy'n siarad Cymraeg) | 26% |
| Mae dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg, gan gynnwys o leiaf y ddau bartner | 74% |
| Mae o leiaf un oedolyn arall nad yw'n rhiant yn gallu siarad Cymraeg | [c]* |
| Aelwyd rhiant unigol | |
| Mam sy'n rhaint unigol yn gallu siarad Cymraeg (dim oedolion eraill sy'n siarad Cymraeg) | 50% |
| Mam sy'n rhaint unigol ddim yn siarad Cymraeg (dim oedolion eraill sy'n siarad Cymraeg) | 9% |
| Tad sy'n rhaint unigol yn gallu siarad Cymraeg (dim oedolion eraill sy'n siarad Cymraeg) | [c]* |
| Tad sy'n rhaint unigol ddim yn siarad Cymraeg (dim oedolion eraill sy'n siarad Cymraeg) | [c]* |

| | |
|---|---|
| Mae o leiaf un oedolyn arall nad yw'n rhiant i'r plentyn yn gallu siarad Cymraeg | [c]* |
| Cyfanswm | |
| Cyfanswm: Pob cartref gyda chwpl ynddynt | 18% |
| Cyfanswm: Pob cartref gyda rhiant unigol | 14% |
| Cyfanswm: Pob cartref | 17% |

*Ffynhonnell*: Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd, yn ôl rhyw (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU

* [c] = mae'r eitem ddata yn datgelu gormod (hy mae'r ffigur yn isel, ac nid yw'n cael ei adrodd i warchod preifatrwydd)

4.37 Mae cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg ar gyfer plant dibynnol (3-4 oed) lle mae 'dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg, gan gynnwys o leiaf y ddau bartner' yn amrywio rhywfaint rhwng ardaloedd awdurdodau lleol Cymru. Mae Powys yn y safle cydradd nawfed gyda 74% (Tabl 15).

Tabl 15. Cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg ar gyfer plant dibynnol (3-4 oed) sy'n byw ar aelwydydd lle mae 'dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg, gan gynnwys o leiaf y ddau bartner', yn ôl awdurdod lleol

| **Awdurdod lleol** | **Canran** | **Safle** |
|---|---:|---:|
| Caerdydd | 90% | 1 |
| Gwynedd | 89% | 2 |
| Ceredigion | 85% | 3 |
| Sir Gaerfyrddin | 83% | 4 |
| Ynys Môn | 82% | =5 |
| Sir Ddinbych | 82% | =5 |
| Bro Morgannwg | 79% | 6 |
| Caerffili | 77% | 7 |
| Sir y Fflint | 76% | 8 |
| **Powys** | **74%** | **=9** |
| Rhondda Cynon Taf | 74% | =9 |
| Conwy | 71% | 10 |
| Castell-nedd Port Talbot | 70% | 11 |
| Wrecsam | 69% | 12 |
| Abertawe | 68% | 13 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 67% | 14 |
| Sir Benfro | 65% | 15 |
| Casnewydd | 63% | 16 |
| Merthyr Tudful | [c]* | =17 |
| Blaenau Gwent | [c]* | =17 |
| Torfaen | [c]* | =17 |
| Sir Fynwy | [c]* | =17 |

*Ffynhonnell*: [Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd, yn ôl rhyw (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU]

* [c] = mae'r eitem ddata yn datgelu gormod (hy mae'r ffigur yn isel, ac nid yw'n cael ei adrodd i warchod preifatrwydd)

## Ysgolion cynradd Powys ac addysg cyfrwng Cymraeg


4.38 Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gosodir pob ysgol ym Mhowys o fewn un o bum categori: Categori 1 (cyfrwng Saesneg), T2 (Trosiannol), Categori 2 (Dwy iaith), T3 (Trosiannol) a Chategori 3 (cyfrwng Cymraeg). [42] Mae Ffigur 3 yn nodi lleoliad ysgolion cynradd Powys yn ôl categori ym mhob ardal.

4.39 Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ym Mhowys (55 allan o 76) yn ysgolion C1 cyfrwng Saesneg ac ar hyn o bryd dim ond darpariaeth cyfrwng Saesneg sydd yn yr ardaloedd canlynol:

- Y Drenewydd
- Tref-y-clawdd a Llanandras
- Y Gelli Gandryll a Thalgarth, a
- Crughywel.

[42] Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | LLYW.CYMRU


**Ffigur 3: Ysgolion cynradd Powys yn ôl pob categori iaith ac ardal**




*Ffynhonnell*: Cyngor Sir Powys

4.40 Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Powys yn nodi cynllun y sir ar gyfer cynyddu mynediad i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Ffigur 4 yn enwi ac yn lleoli yn ôl ardal yr ysgolion sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd ac sy'n newid i gynyddu'r ddarpariaeth honno.

**Ffigur 4: Ysgolion cynradd Powys yn ôl categori cyfrwng Cymraeg (categori T2 i C3) ac ardal**




*Ffynhonnell*: Cyngor Sir Powys

4.41 Amlinellir y darparwyr a nifer y disgyblion a fanteisiodd ar ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn ystod 2020/21 yn Nhabl 16.[43]

[43] CSGA Cyngor Sir Powys (t.18)

Tabl 16. Darpariaeth gynradd Powys – math a nifer y disgyblion

| Ysgol | Math | Cyfanswm disgyblion cyfrwng Cymraeg (Derbyn-Bl6)[8] CYBLD 2021 | Cyfanswm disgyblion cyfrwng Saesneg (Derbyn-Bl6) CYBLD 2021 |
|---|---|---|---|
| Ysgol Carno | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 45 | Amh |
| Ysgol Cwm Banwy[9] | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 46 | Amh |
| Ysgol Llanbrynmair | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 59 | Amh |
| Ysgol Pontrobert | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 41 | Amh |
| Ysgol Glantwymyn | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 70 | Amh |
| Ysgol Pennant | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 84 | Amh |
| Ysgol y Bannau | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 111 | Amh |
| Ysgol Dafydd Llwyd | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 153 | Amh |
| Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 400 | Amh |
| Ysgol Gymraeg y Trallwng | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 79 | Amh |
| Ysgol Llanfair-ym-Muallt | Ysgolion dwy ffrwd | 92 | 109 |
| Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr Gwy. | Ysgolion dwy ffrwd | 65 | 138 |
| Ysgol Gynradd Pontsenni | Ysgolion dwy ffrwd | 56 | 79 |
| Ysgol Dyffryn Trannon | Ysgolion dwy ffrwd | 113 | 18 |
| Ysgol Llanfyllin | Ysgolion dwy ffrwd | 63 | 76 |
| Ysgol Llanrhaeadr-ym-Mochnant | Ysgolion dwy ffrwd | 39 | 34 |
| Ysgol Rhiw Bechan | Ysgolion dwy ffrwd | 61 | 107 |
| Ysgol Trefonnen | Ysgolion dwy ffrwd | 91 | 117 |
| Llanfair Caereinion | Ysgolion dwy ffrwd | 85 | 77 |
| Ysgol Bro Hyddgen (Cynradd) | Ysgolion dwy ffrwd | 112 | 53 |
| **CYFANSWM** | | **1,865** | |

*Ffynhonnell*: CSCA Cyngor Sir Powys 2022-2032, t.18-19.

4.42 Yn ystod 2020/21, roedd cyfanswm o 9,541 o ddisgyblion yn derbyn addysg gynradd ym Mhowys. Roedd 1,865 (19.5%) o'r rhain yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.[44]

4.43 Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Powys yn cyflwyno nod y sir i gynyddu nifer y Plant Dosbarth Derbyn/Pump oed a fydd yn manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2027.

Tabl 17. Nifer a chanran y plant pump oed yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg

| Blwyddyn | Niferoedd | Canran |
|---|---|---|
| 2022-2023 | 272 | 22% |
| 2023-2024 | 297 | 24% |
| 2024-2025 | 312 | 26% |
| 2025-2026 | 346 | 28% |
| 2026-2027 | 371 | 30% |
| 2027-2028 | 396 | 32% |
| 2028-2029 | 420 | 34% |
| 2030-2031 | 470 | 38% |
| 2031-2032 | 494 | 40% |

Ffynhonnell: CSCA Cyngor Sir Powys 2022-2032, t.27.[45]

4.44 Erbyn 2027 bydd darpariaeth Gymraeg newydd yn cael ei datblygu yn yr ardaloedd lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd:

- Y Gelli Gandryll
- Crughywel
- Llanandras
- Llanidloes
- Ardal y Gororau yng Ngogledd Powys.

4.45 Yn ogystal, bydd y ddarpariaeth Gymraeg bresennol yn cael ei hehangu yn y dalgylchoedd canlynol:

- Llanfair Caereinion
- Llanfyllin
- Ystradgynlais
- Aberhonddu
- Llandrindod / Llanfair-ym-Muallt
- Y Drenewydd
- Llanidloes.

[44] Ibid.

[45] Daw'r tabl hwn o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Powys, t.27 sy'n hepgor data ar gyfer blwyddyn ysgol 2029-2030.


## Ysgolion uwchradd Powys ac addysg cyfrwng Cymraeg

4.46 Mae Ffigur 5 yn lleoli pob un o ysgolion uwchradd Powys yn ôl ardal a chategori iaith. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg C3 ym Mhowys. Mae Ysgol Bro Hyddgen yn ardal Machynlleth yn ysgol categori T3 sydd yn y broses o drosglwyddo i ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae gan ardal Llanfair Caereinion un ysgol dwy ffrwd C2.

4.47 Dros y deng mlynedd nesaf bydd pedair ysgol T2 arall yn trosglwyddo i ddarpariaeth dwy ffrwd yn yr ardaloedd canlynol:

- Llanfyllin
- Llandrindod a Rhaeadr Gwy
- Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd
- Llanidloes a Blaenhafren
- Aberhonddu.

## Ffigur 5: Ysgolion uwchradd Powys yn ôl categori iaith a lleoliad




*Ffynhonnell*: Cyngor Sir Powys

4.48 Y nod yw cynyddu darpariaeth ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu nifer a chanran y disgyblion cynradd Blwyddyn 6 sy'n parhau i dderbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 7.

Tabl 18: Nifer a chanran y dysgwyr a fydd yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 yn eu haddysg statudol

| **Blwyddyn** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| 2022-2023 | 181 | 84% |
| 2023-2024 | 185 | 86% |
| 2024-2025 | 189 | 88% |
| 2025-2026 | 194 | 90% |
| 2026-2027 | 198 | 92% |
| 2027-2028 | 202 | 94% |
| 2028-2029 | 206 | 96% |
| 2030-2031 | 211 | 98% |
| 2031-2032 | 219 | 102% |

Ffynhonnell: Addysg Gymraeg ym Mhowys - Cyngor Sir Powys t.33.[46]

[46] Daw'r tabl hwn o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Powys, t.33 sy'n hepgor data ar gyfer blwyddyn ysgol 2029-2030.

# 5 CDLl Newydd Powys – Y Strategaeth a Ffefrir

## Materion allweddol a'r Weledigaeth

5.1 Mae 'CDLl Newydd Powys (2022–2037)' yn ceisio darparu ar gyfer twf cynaliadwy ardal y cynllun yn y dyfodol drwy ystyried y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n wynebu'r ardal.

5.2 Mae'r Materion Allweddol ar gyfer y 'CDLl Newydd' wedi deillio o ffynonellau amrywiol gan gynnwys:

- Ymarferion ymgysylltu mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2022/2023 yn cynnwys Cynghorwyr Sir a Gwasanaethau.
- Adolygiad o Faterion/Ystyriaethau ac Amcanion CDLl Mabwysiedig Powys (2011–2026).
- Adroddiad Adolygu (Chwefror 2022) ac Adroddiadau Monitro Blynyddol (2021, 2022 a 2023) ar gyfer CDLl Mabwysiedig Powys (2011–2026).
- Deddfwriaeth gyfredol a pholisi cenedlaethol, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol—Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i, "datgarboneiddio cymdeithas, bod yn fwy ffyniannus, tyfu'r Gymraeg a gwella iechyd".
- Cynlluniau a strategaethau ar gyfer Powys a'r Canolbarth gan gynnwys Cynllun Llesiant Powys, y Cynllun Strategol a Chydraddoldeb Corfforaethol, a Datganiad Ardal Canolbarth Cymru.
- Sylwadau gan Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Hydref 2022 ynghylch Archwiliad Anheddiad ar 58 o aneddiadau mwyaf y CDLl Mabwysiedig.
- Sylwadau o gyfnod ymgynghori cyhoeddus anstatudol tair wythnos ym mis Ionawr 2024 ar y Materion, y weledigaeth a'r Amcanion Allweddol Drafft ar gyfer y CDLl Newydd.

5.3 Mae 20 o Faterion Allweddol wedi'u nodi ar gyfer 'CDLl Newydd Powys (2022–2037) – Y Strategaeth a Ffefrir (Ymgynghoriad Drafft)'. Ystyrir mai'r rhain yw'r prif faterion defnydd tir a chynllunio gofodol sy'n wynebu ardal y cynllun am y cyfnod hyd at 2037. Y nawfed mater allweddol yw 'Y Gymraeg – Hybu a Diogelu'.

5.4 Darperir yr adran gyd-destun ganlynol gyda Mater Allweddol 9 (MA.9):

*Rhagwelir y bydd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru yn cynyddu yn unol â tharged Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg, Llywodraeth Cymru).*
*Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn amrywio'n sylweddol ledled Powys, gyda chadarnleoedd Cymraeg traddodiadol yng nghymunedau y gogledd-orllewin a'r de-orllewin. Yn yr ardaloedd hyn, mae'r Gymraeg a diwylliant Cymreig yn rhan annatod o'r gwead cymdeithasol. Fodd bynnag, canfu Cyfrifiad 2021 fod nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys wedi gostwng ychydig yn ystod cyfnod deng mlynedd 2011–2021.*

*Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hybu'r Gymraeg a'i gwneud yn haws i drigolion ei defnyddio. I hwyluso hyn, mae'r Cyngor yn dilyn Safonau'r Gymraeg, mae ganddo Strategaeth Hybu'r Gymraeg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd y CDLl Newydd yn dosbarthu twf er mwyn galluogi defnydd o'r Gymraeg i ffynnu, a chynnal cryfder yr iaith mewn meysydd o sensitifrwydd a phwysigrwydd ieithyddol. Disgwylir i gynigion datblygu gyfrannu at fentrau sy'n cefnogi ac yn hybu'r Gymraeg, ac wrth wneud hynny byddant yn ategu rôl y system addysg wrth gynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc fod yn ddwyieithog.*

5.5 Mewn ymateb i'r Materion Allweddol, mae'r Weledigaeth ganlynol wedi'i diffinio ar gyfer CDLl Newydd Powys – Y Strategaeth a Ffefrir (Drafft Ymgynghorol).

*Erbyn 2037, bydd ardal cynllun Powys:*

*Yn lle o gymunedau bywiog, llwyddiannus ac sydd â chysylltiadau da gan gynnwys trefi a phentrefi ffyniannus sy'n darparu ar gyfer twf cynaliadwy mewn cartrefi a swyddi newydd, ac yn darparu mynediad da at wasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth. Yn rhan o ranbarth mwy cynhyrchiol, mentrus a nodedig sy'n cefnogi busnesau presennol, economi estynedig, a gwell rhagolygon swyddi ar sail arloesedd sy'n gysylltiedig â gweithlu medrus. Bydd sectorau economaidd sylfaenol, gan gynnwys ffermio, twristiaeth, ac adloniant a hamdden, yn parhau â'u rôl allweddol a bydd yr economi wledig yn gryf ac yn amrywiol. Yn elwa ar ddull strategol tuag at Seilwaith Gwyrdd, gan sicrhau ei fod yn cael ei hybu a'i ddiogelu er budd lluosog i fywyd gwyllt a phobl, ac yn hwyluso gwell rhwydweithiau ecolegol.*

*Erbyn 2037, bydd cymunedau ledled ardal y cynllun wedi datblygu mewn ffordd sy'n galluogi ac yn cefnogi:*

- *Cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran sy'n byw'n dda mewn lleoedd sy'n diwallu anghenion cymdeithasol, economaidd, Cymraeg a diwylliannol.*
- *Natur i ffynnu trwy fantais net i fioamrywiaeth ac ecosystemau cadarn.*
- *Y broses o addasu i newid hinsawdd a'r newid tuag at sero net.*

*Bydd preswylwyr yn byw bywydau mwy diogel, iachach a gwyrddach drwy ddarpariaeth datblygiadau sydd wedi eu cynllunio'n dda mewn amgylchedd ffisegol a diwylliannol rhagorol. Bydd y cyfoeth o adnoddau yn yr amgylcheddau naturiol, adeiledig a hanesyddol, gan gynnwys tirweddau eiconig, yn cael eu cynnal, eu diogelu, eu gwella a'u gwerthfawrogi, gan lunio etifeddiaeth defnydd tir cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.*

## Amcanion a Pholisïau Strategol

5.6 Er mwyn cyrraedd a chyflawni'r Weledigaeth, cynigir 22 Amcan ar gyfer y CDLl Newydd – Y Strategaeth a Ffefrir (Drafft Ymgynghori). Mae'r Amcanion wedi'u grwpio o dan y categorïau pwnc canlynol sy'n deillio o'r Materion Allweddol ac maent yn nodi'r bwriadau cyffredinol ar gyfer rheoli datblygiad hyd at 2037:

- Newid Hinsawdd.

- Adfer Natur a Rheoli Adnoddau yn Gynaliadwy.
- Egwyddorion Cynllunio Allweddol, Creu Lleoedd, Iechyd a Llesiant.
- **Cymunedau Cynaliadwy, Tai a Gwasanaethau.**
- Economi Cynaliadwy a Bywiog.
- Seilwaith, Ynni a Gwastraff.

5.7 Mae 'Amcan 11' yn ymwneud â'r Gymraeg, ac yn dod o dan 'Cymunedau Cynaliadwy, Tai a Gwasanaethau':

> *Meithrin y Gymraeg drwy ddiogelu Cadarnleoedd Cymraeg a chefnogi mentrau diwylliannol, addysg ac iaith Gymraeg.*

5.8 Mae'r CDLl Newydd – Y Strategaeth a Ffefrir (Drafft Ymgynghori) hefyd yn amlinellu Polisïau Strategol sy'n ymateb i'r Weledigaeth a'r Amcanion a byddant yn berthnasol ar gyfer penderfynu ar bob cynnig datblygu a wneir i'r ACLl hyd at 2037.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

5.9 Er mwyn llywio'r CDLl sy'n cael ei ddatblygu, cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid ar 29.02.2024 i drafod materion a chyfleoedd i gefnogi'r Gymraeg. Yn ystod y digwyddiad hwn mi godwyd y pwyntiau canlynol (pwyntiau a ddylid eu hystyried wrth i'r Cynllun ddatblygu):

- Nododd rhanddeiliaid nad yw cyfansoddiad ieithyddol ardal yn statig. O ganlyniad i hynny, gall ardaloedd nad ydynt yn cael eu hystyried yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol ar hyn o bryd godi i'r statws hwnnw.
- Cododd yr holl randdeiliaid bryderon am effeithiau negyddol posibl datblygiadau tai ar yr iaith Gymraeg. Nodwyd ei fod o fudd i'r Gymraeg pan mae datblygu tai yn mynd rhagddo yn unol â'r galw lleol am dai.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd rôl addysg Gymraeg wrth greu siaradwyr Cymraeg newydd.

5.10 Ym mis Hydref 2023, mynychodd yr ACLl ddigwyddiad Cynllunio a drefnwyd gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i drafod cyfleoedd o ran sut y gall y system gynllunio gefnogi ardaloedd Cymraeg. Disgwylir i'r Comisiwn adrodd ym mis Awst 2024 a bydd yr argymhellion sy'n codi o waith y Comisiwn yn cael eu hystyried wrth i baratoadau'r CDLl fynd yn eu blaen.

# 6. Argymhellion

## Monitro

6.1 Argymhellir polisïau CDLl Mabwysiedig Powys yn parhau i gael eu monitro, a bod hynny'n cael ei adrodd trwy'r Adolygiad Monitro Blynyddol i sicrhau bod datblygiadau yn parhau i gefnogi'r Gymraeg yn gadarnhaol.

## Polisi Strategol Drafft ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd

6.2 Argymhellir bod Polisi Strategol - i lywio'r gwaith o ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg - wedi'i gynnwys yn y CDLl sy'n cael ei ddatblygu. Cynigir y geiriad canlynol am y Polisi Strategol:

*Polisi Strategol – Y Gymraeg a Diwylliant*

*Rhaid i gynigion datblygu warchod a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru ledled y Sir.*

*Yng nghadarnleoedd y Gymraeg a nodwyd, rhaid i ddarpariaeth datblygiadau preswyl a chyflogaeth, ynghyd â chyfleusterau eraill, fod yn gymesur ag anghenion cymunedau lleol.*


*Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n cael effaith niweidiol ar egni y Gymraeg a diwylliant Cymru, nac effaith andwyol ar gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol oni bai bod modd lliniaru'r effaith yn foddhaol.*

6.3 Er mwyn cefnogi'r Polisi Strategol, cynigir y testun Cyfiawnhau canlynol, sy'n cynnwys tynnu sylw at leoliad cadarnleoedd y Gymraeg:

*Nododd Cyfrifiad 2021 wahaniaeth sylweddol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ledled Powys, yn amrywio o 54% o drigolion sy'n gallu siarad Cymraeg yn Ward Glantwymyn i 4% yn Ward yr Ystog. Mae'r Gymraeg yn rhan sylweddol o wead cymdeithasol cymunedau yng ngogledd-orllewin, gorllewin a de-orllewin Powys, ac mae'n darparu ymdeimlad cryf o le a hunaniaeth.*

*Yng Nghadarnleoedd y Gymraeg lle mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd i'r gymuned, rhaid rheoli datblygiadau er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi i alluogi'r iaith i aros yn ganolog i'r cymunedau hynny. Rhaid i'r datblygiadau fod o raddfa, math a chymeriad priodol fel eu bod yn diwallu anghenion y cymunedau hyn a dylent ddigwydd ar gyfradd y gellir eu derbyn a'u cymhathu heb niweidio cymeriad y gymuned.*

***Ffigwr 12 - Cadarnleoedd y Gymraeg***




*Mewn mannau eraill, dylid ystyried datblygiadau fel grym cadarnhaol sy'n annog addysg a seilwaith cymdeithasol, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd cadarn i gael eu creu i alluogi'r iaith i ddatblygu fel rhan naturiol a ffyniannus o gymunedau cynaliadwy.*

*Bydd polisïau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Adnau er mwyn nodi'r amgylchiadau pan fo angen mesurau lliniaru yn unol â sensitifrwydd y Gymraeg yn yr ardal lle y lleolir y datblygiad arfaethedig; a phan fo rhaid i Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg lywio ceisiadau cynllunio.*

## Polisïau Rheoli Datblygu

6.4 Argymhellir bod polisi Rheoli Datblygu presennol y CDLl Mabwysiedig (DM12) yn cael ei adolygu yng ngoleuni tystiolaeth wedi'i diweddaru a'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg sy'n cael ei ddatblygu. Bydd polisi Rheoli Datblygu diwygiedig sy'n cefnogi'r Gymraeg yn cael ei ddatblygu yn ystod y broses o lunio'r Cynllun i lywio'r Cyfnod Adnau, a ddylai geisio symud i ffwrdd o aneddiadau rhestredig penodol i ystyried dyheadau cymunedol ehangach o fewn a thu hwnt i gadarnleoedd yr Iaith Gymraeg.